



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2019 Rhif 1132 (Cy. 197)

2019 No. 1132 (W. 197)

**TRAFNIDIAETH A
GWEITHFEYDD, CYMRU**

**TRANSPORT AND WORKS,
WALES**

Gorchymyn Rheilffyrdd Caerdydd
a'r Cymoedd (Trosglwyddo) 2019

The Cardiff and Valleys Railways
(Transfer) Order 2019

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu i Drafnidiaeth Cymru a Network Rail Infrastructure Limited ymrwymo i gynlluniau ar gyfer trosglwyddo o Network Rail Infrastructure Limited i Drafnidiaeth Cymru ddarpariaethau statudol penodol a hawliau ac atebolrwyddau eraill sy'n ymwneud â'r rheilffyrdd sy'n bodoli eisoes a ddisgrifir yn Atodlen 1.

Yr Ymgeisydd yw Keolis Amey Wales Cymru Limited.

Nid yw'r Gorchymyn yn awdurdodi adeiladu gweithfeydd.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order provides for Transport for Wales and Network Rail Infrastructure Limited to enter into schemes for the transfer from Network Rail Infrastructure Limited to Transport for Wales of certain statutory provisions and other rights and liabilities relating to the existing railways described in Schedule 1.

The Applicant is Keolis Amey Wales Cymru Limited.

The Order does not authorise the construction of works.

2019 Rhif 1132 (Cy. 197)

**TRAFNIDIAETH A
GWEITHFEYDD, CYMRU**

**Gorchymyn Rheilffyrdd Caerdydd
a'r Cymoedd (Trosglwyddo) 2019**

Gwnaed 15 Gorffennaf 2019
Yn dod i rym 2 Awst 2019

CONTENTS

1. Enwi a chychwyn
2. Dehongli
3. Cytundebau â Network Rail ar gyfer cynlluniau trosglwyddo
4. Achosion pellach o drosglwyddo rheilffyrdd gan yr ymgymwrwr
5. Y pŵer i weithredu a defnyddio rheilffordd

ATODLENNI

- ATODLEN 1 — Y deddfiadau rheilffyrdd ar gyfer llinellau craidd y Cymoedd
- ATODLEN 2 — Darpariaethau sy'n ymwneud â chynlluniau trosglwyddo

2019 No. 1132 (W. 197)

**TRANSPORT AND WORKS,
WALES**

**The Cardiff and Valleys Railways
(Transfer) Order 2019**

Made 15 July 2019
Coming into force 2 August 2019

CONTENTS

1. Title and commencement
2. Interpretation
3. Agreements with Network Rail for transfer schemes
4. Further transfer of railways by undertaker
5. Power to operate and use railway

SCHEDULES

- SCHEDULE 1 — The railway enactments for the core Valley lines
- SCHEDULE 2 — Provisions relating to transfer schemes

Gwnaed cais i Weinidogion Cymru yn unol â Rheolau Trafndiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Ceisiadau a Gwrthwynebiadau) (Cymru a Lloegr) 2006(1) am Orchymyn o dan adrannau 1 a 5 o Ddeddf Trafndiaeth a Gweithfeydd 1992(2) (“y Ddeddf”).

[Mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu gwneud Gorchymyn i roi effaith i'r cynigion sydd yn y cais gydag addasiadau nad ydynt, yn eu barn hwy, yn gwneud unrhyw newid sylweddol i'r cynigion.]

Cyhoeddwyd hysbysiad o benderfyniad Gweinidogion Cymru yn y London Gazette ar 11 Gorffennaf 2019.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 1 a 5 o'r Ddeddf, a pharagraffau 1, 5, 6, 7, 8, 11, 15, 16 a 17 o Atodlen 1 iddi, sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(3), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Rheilffyrdd Caerdydd a'r Cymoedd (Trosglwyddo) 2019 a daw i rym ar 2 Awst 2019.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “y cwmnïau” (“*the companies*”) yw—

- (a) Keolis Amey Wales Cymru Limited (Rhif cofrestru'r cwmni 11391059) y mae ei swyddfa gofrestredig yn Nepo Maendy Amey Rail, oddi ar Caerleon Road, Casnewydd NP19 9DZ, a
- (b) Amey Keolis Infrastructure/Seilwaith Amey Keolis Limited (Rhif cofrestru'r cwmni 11389544) y mae ei gyfeiriad cofrestredig yn The Sherard Building, Edmund Halley Road, Oxford OX4 4DQ;

An application has been made to the Welsh Ministers in accordance with the Transport and Works (Applications and Objections Procedure) (England and Wales) Rules 2006(1) for an Order under sections 1 and 5 of the Transport and Works Act 1992(2) (“the Act”).

The Welsh Ministers have determined to make an Order giving effect to the proposals comprised in the application with modifications which in their opinion do not make any substantial change in the proposals.

Notice of the Welsh Ministers' determination was published in the London Gazette on 11 July 2019.

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 1 and 5 of, and paragraphs 1, 5, 6, 7, 8, 11, 15, 16 and 17 of Schedule 1 to, the Act, now exercisable by them(3) make the following Order:

Title and commencement

1. The title of this Order is the Cardiff and Valleys Railways (Transfer) Order 2019 and it comes into force on 2 August 2019.

Interpretation

2. In this Order—

“the companies” (“*y cwmnïau*”) means—

- (a) Keolis Amey Wales Cymru Limited (Company registration number 11391059) whose registered office is at Amey Rail Maindee Depot, Off Caerleon Road, Newport NP19 9DZ, and
- (b) Amey Keolis Infrastructure/Seilwaith Amey Keolis Limited (Company registration number 11389544) whose registered address is The Sherard Building, Edmund Halley Road, Oxford OX4 4DQ;

(1) O.S. 2006/1466, a ddiwygiwyd gan O.S. 2010/439, O.S. 2011/556, O.S. 2011/2085, O.S. 2012/147, O.S. 2012/1658, O.S. 2012/2590 ac O.S. 2013/755.

(2) 1992 p. 42.

(3) Mae pwerau o dan adrannau 1 a 5 o'r Ddeddf, a pharagraffau 1, 5, 6, 7, 8, 11, 15, 16 a 17 o Atodlen 1 iddi, wedi eu breinio bellach yng Ngweinidogion Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru. Fe'u breiniwyd yn flaenorol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Yn rhinwedd paragraffau 30 a 32 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), fe'u trosglwyddwyd i Weinidogion Cymru.

(1) S.I. 2006/1466, amended by S.I. 2010/439, S.I. 2011/556, S.I. 2011/2085, S.I. 2012/147, S.I. 2012/1658, S.I. 2012/2590 and S.I. 2013/755.

(2) 1992 c. 42.

(3) Powers under sections 1 and 5 of, and paragraphs 1, 5, 6, 7, 8, 11, 15, 16 and 17 of Schedule 1 to, the Act are now vested in the Welsh Ministers so far as they are exercisable in relation to Wales. They were previously vested in the National Assembly for Wales by virtue of article 2 of and Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). By virtue of paragraphs 30 and 32 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32), they were transferred to the Welsh Ministers.

ystyr “cynllun trosglwyddo” (“*transfer scheme*”) yw cynllun a wneir o dan erthygl 3(1) (cytundebau â Network Rail ar gyfer cynlluniau trosglwyddo);

ystyr “darpariaeth statudol” (“*statutory provision*”) yw darpariaeth, pa un a yw’n un gyffredinol neu o natur arbennig, a geir mewn unrhyw Ddeddf, neu mewn unrhyw ddogfen a wneir neu a ddyroddir o dan unrhyw Ddeddf, pa un a yw’n un gyffredinol neu o natur arbennig;

ystyr “y dyddiad perthnasol” (“*the relevant date*”) yw’r dyddiad y daw’r Gorchymyn hwn i rym;

ystyr “llinellau craidd y Cymoedd” (“*the core Valley lines*”) yw’r rheilffyrdd a awdurdodir gan y deddfiadau a restrir yn Atodlen 1 (y deddfiadau rheilffyrdd ar gyfer llinellau craidd y Cymoedd) ynghyd â phob darn o dir a gwaith sy’n ymwneud â’r rheilffyrdd hynny;

ystyr “Network Rail” (“*Network Rail*”) yw Network Rail Infrastructure Limited (Rhif cofrestru’r cwmni 02904587) y mae ei swyddfa gofrestredig yn 1 Eversholt Street, London, NW1 2DN ac unrhyw un o gwmnïau cysylltiedig Network Rail Infrastructure Limited sy’n dal eiddo at ddibenion rheilffordd, ac at ddibenion y diffiniad hwn ystyr “cwmni cysylltiedig” (“*associated company*”) yw unrhyw gwmni sydd (o fewn ystyr adran 1159 o Ddeddf Cwmnïau 2006(1)) yn gwmni daliannol Network Rail Infrastructure Limited neu sy’n un o is-gwmnïau eraill cwmni daliannol Network Rail Infrastructure Limited;

ystyr “y rheilffyrdd a drosglwyddir” (“*the transferred railways*”) yw cynifer o linellau craidd y Cymoedd ag y gellir eu trosglwyddo i’r ymgymerwr drwy gynllun trosglwyddo;

ystyr “ymgymeriad llinellau craidd y Cymoedd” (“*the core Valley lines undertaking*”) yw’r rhan o ymgymeriad Network Rail sy’n cynnwys llinellau craidd y Cymoedd, ac unrhyw dir, gwaith, eiddo arall, hawliau, atebolrwyddau neu rwymedigaethau, statudol neu fel arall, sy’n ymwneud â llinellau craidd y Cymoedd;

ystyr “yr ymgymerwr” (“*the undertaker*”) yw Trafnidiaeth Cymru (Rhif y Cwmni 09476013) a ymgorfforwyd o dan Ddeddf Cwmnïau 2006, sy’n gwmni cyfyngedig drwy warant, y mae ei swyddfa gofrestredig yng Nghanolfan QED, Prif Rodfa, Stad Ddiwydiannol Trefforest, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf CF37 5YR.

“the core Valley lines” (“*llinellau craidd y Cymoedd*”) means the railways authorised by the enactments listed in Schedule 1 (the railway enactments for the core Valley lines) together with all lands and works relating to those railways;

“the core Valley lines undertaking” (“*ymgymeriad llinellau craidd y Cymoedd*”) means the part of Network Rail’s undertaking which comprises the core Valley lines, and any land, works, other property, rights, liabilities or obligations, statutory or otherwise, relating to the core Valley lines;

“Network Rail” (“*Network Rail*”) means Network Rail Infrastructure Limited (Company registration number 02904587) whose registered office is at 1 Eversholt Street, London, NW1 2DN and any associated company of Network Rail Infrastructure Limited which holds property for railway purposes, and for the purposes of this definition “associated company” (“*cwmni cysylltiedig*”) means any company which is (within the meaning of section 1159 of the Companies Act 2006(1)) the holding company of Network Rail Infrastructure Limited or another subsidiary of the holding company of Network Rail Infrastructure Limited;

“the relevant date” (“*y dyddiad perthnasol*”) means the date on which this Order comes into force;

“statutory provision” (“*darpariaeth statudol*”) means a provision whether of a general or of a special nature contained in, or in any document made or issued under, any Act, whether of a general or a special nature;

“transfer scheme” (“*cynllun trosglwyddo*”) means a scheme made under article 3(1) (agreements with Network Rail for transfer schemes);

“the transferred railways” (“*y rheilffyrdd a drosglwyddir*”) means so much of the core Valley lines as may be transferred to the undertaker by means of a transfer scheme;

“the undertaker” (“*yr ymgymerwr*”) means Transport for Wales (Company No. 09476013) incorporated under the Companies Act 2006, a company limited by guarantee and having its registered office at QED Centre, Main Avenue, Trefforest Industrial Estate, Pontypridd, Rhondda Cynon Taff CF37 5YR.

(1) 2006 p. 46.

(1) 2006 c. 46.

Cytundebau â Network Rail ar gyfer cynlluniau trosglwyddo

3.—(1) Caiff yr ymgwymerwr a Network Rail, yn amodol ar gydymffurfio â thelerau ei drwydded rhwydwaith yn achos Network Rail, gytuno ar, ymrwymo i, a gweithredu cynllun neu gynlluniau ar gyfer trosglwyddo i'r ymgwymerwr y cyfan neu unrhyw ran o—

- (a) llinellau craidd y Cymoedd, a
- (b) ymgwymeriadau llinellau craidd y Cymoedd.

(2) Caniateir gwneud cynllun trosglwyddo o dan baragraff (1) yn unol â chytundeb a wneir cyn i'r Gorchymyn hwn ddod i rym y gellid bod wedi ei wneud o dan baragraff (1) pe bai wedi cael ei wneud ar y dyddiad hwnnw neu ar ôl hynny.

(3) Pan wneir cynllun trosglwyddo o dan baragraff (1) mae'r ymgwymerwr, i'r graddau a nodir yn y cynllun trosglwyddo—

- (a) yn meddu ar yr hawl i gael budd o'r holl hawliau, pwerau a breintiau sy'n ymwneud â llinellau craidd y Cymoedd neu unrhyw ran ohonynt y cyfeirir atynt yn y cynllun trosglwyddo ac arfer yr hawliau, y pwerau a'r breintiau hynny,
- (b) yn ddarostyngedig i'r holl rwymedigaethau, statudol neu fel arall, sy'n ymwneud â llinellau craidd y Cymoedd neu unrhyw ran ohonynt (i'r graddau y mae'r darpariaethau hynny yn parhau mewn grym ac yn gallu cael effaith), gyda Network Rail yn cael ei ryddhau rhag pob cyfryw rwymedigaeth yn y telerau y darperir ar eu cyfer yn y cynllun trosglwyddo, ac
- (c) yn gallu addasu ar, yn, dros neu o dan y tir, y gweithfeydd a'r eiddo hynny, unrhyw reilffordd i'w ddefnyddio, ei gynnal a'i gadw, ei ddefnyddio a'i weithredu.

(4) Nid oes unrhyw beth ym mharagraff (3) yn lleihau effaith unrhyw ddarpariaeth statudol benodol ar gyfer—

- (a) amddiffyn perchennog, lesddeiliad neu feddiannydd unrhyw eiddo a nodir yn benodol gan y ddarpariaeth, neu
- (b) diogelu, neu fod er budd, unrhyw ymddiriedolwyr cyhoeddus neu gomisiynwyr, corfforaeth neu berson arall, a enwir yn benodol yn y ddarpariaeth.

(5) Mae Atodlen 2 yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch cynlluniau trosglwyddo.

Agreements with Network Rail for transfer schemes

3.—(1) The undertaker and Network Rail may, subject in the case of Network Rail to compliance with the terms of its network licence, agree, enter into, and carry into effect a scheme or schemes for the transfer to the undertaker of the whole or any part of—

- (a) the core Valley lines, and
- (b) the core Valley lines undertakings.

(2) A transfer scheme under paragraph (1) may be made pursuant to an agreement made before the coming into force of this Order which, had it been made on or after that date, could have been made under paragraph (1).

(3) Where a transfer scheme is made under paragraph (1) the undertaker is, to the extent set out in the transfer scheme—

- (a) entitled to the benefit of, and to exercise, all rights, powers and privileges relating to the core Valley lines or any part of them referred to in the transfer scheme,
- (b) subject to all obligations, statutory or otherwise, relating to the core Valley lines or any part of them (in so far as those provisions continue in force and are capable of taking effect), with Network Rail released from all such obligations in the terms provided for in the transfer scheme, and
- (c) able to adapt for use, maintain, use and operate any railway on in over or under that land, works and property.

(4) Nothing in paragraph (3) prejudices any express statutory provision for—

- (a) the protection of the owner, lessee or occupier of any property specifically identified by the provision, or
- (b) the protection or benefit of any public trustees or commissioners, corporation or other person, specifically named in the provision.

(5) Schedule 2 makes further provision about transfer schemes.

Achosion pellach o drosglwyddo rheilffyrdd gan yr ymgwymerwr

4.—(1) Yn yr erthygl hon—

mae “prydles” (“*lease*”) yn cynnwys isbrydles a rhaid dehongli’r ferf “prydlesu” (“*lease*”) yn unol â hynny;

ystyr “y trosglwyddai” (“*the transferee*”) yw unrhyw berson y prydlesir neu y gwerthir y rheilffyrdd, neu unrhyw ran ohonynt, iddo o dan y pwerau a roddir gan yr erthygl hon;

ystyr “yr ymgwymeriad a drosglwyddir” (“*the transferred undertaking*”) yw cymaint o’r rheilffyrdd ag a brydlesir neu a werthir o dan y pwerau a roddir gan yr erthygl hon.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), unrhyw bryd ar ôl y dyddiad perthnasol, caiff yr ymgwymerwr, gyda chydysniad Gweinidogion Cymru, werthu neu brydlesu’r rheilffyrdd a drosglwyddir neu unrhyw ran ohonynt i unrhyw berson ar y cyfryw delerau ac amodau ag y gellir cytuno arnynt rhwng yr ymgwymerwr a’r person hwnnw.

(3) Nid oes angen cydysniad Gweinidogion Cymru o dan baragraff (2) os bwriedir prydlesu’r rheilffyrdd a drosglwyddir neu unrhyw ran ohonynt i un o’r cwmnïau neu i’r ddau ohonynt.

(4) Ac eithrio fel y darperir fel arall yn y Gorchymyn hwn—

- (a) mae’r ymgwymeriad a drosglwyddir yn parhau i fod yn ddarostyngedig i’r holl ddarpariaethau statudol a’r holl ddarpariaethau eraill sy’n gymwys iddo ar ddyddiad y brydles neu’r gwerthiant (i’r graddau y mae’r darpariaethau hynny yn parhau mewn grym ac yn gallu cael effaith),
- (b) mae gan y trosglwyddai, ac eithrio’r ymgwymerwr, yr hawl i gael budd o’r holl hawliau, pwerau a breintiau sy’n ymwneud â’r ymgwymeriad a drosglwyddir ac arfer yr hawliau, y pwerau a’r breintiau hynny, ac
- (c) wrth arfer pwerau unrhyw ddeddfiad, mae’r trosglwyddai yn ddarostyngedig i’r unrhwymedigaethau, statudol neu fel arall, ag a fyddai’n gymwys pe câi’r pwerau hynny eu harfer gan yr ymgwymerwr.

(5) Mae paragraff (4) yn cael effaith yn ystod cyfnod unrhyw brydles a roddir, ac o ddyddiad gweithredol unrhyw werthiant, o dan y pwerau a roddir gan yr erthygl hon.

Further transfer of railways by undertaker

4.—(1) In this article—

“lease” (“*prydles*”) includes an underlease and “lease” (“*prydlesu*”) where used as a verb is to be construed accordingly;

“the transferee” (“*y trosglwyddai*”) means any person to whom the railways, or any part of them, are leased or sold under the powers conferred by this article;

“the transferred undertaking” (“*yr ymgwymeriad a drosglwyddir*”) means so much of the railways as is leased or sold under the powers conferred by this article.

(2) Subject to paragraph (3), any time after the relevant date the undertaker may, with the consent of the Welsh Ministers, sell or lease the transferred railways or any part of them to any person on such terms and conditions as may be agreed between the undertaker and that person.

(3) The Welsh Ministers’ consent is not required under paragraph (2) if it is proposed to lease the transferred railways or any part of them to one or both of the companies.

(4) Except as may be otherwise provided in this Order—

- (a) the transferred undertaking continues to be subject to all statutory and other provisions applicable to it at the date of the lease or sale (in so far as those provisions continue in force and are capable of taking effect),
- (b) the transferee is, to the exclusion of the undertaker, entitled to the benefit of, and to exercise, all rights, powers and privileges relating to the transferred undertaking, and
- (c) the exercise by the transferee of the powers of any enactment is subject to the same obligations, statutory or otherwise, as would apply if those powers were exercised by the undertaker.

(5) Paragraph (4) has effect during the term of any lease granted, and from the operative date of any sale, under the powers conferred by this article.

Y pŵer i weithredu a defnyddio rheilffordd

5.—(1) Caiff yr ymgymerwr ac unrhyw drosglwyddai o dan erthygl 4 weithredu a defnyddio'r rheilffyrdd a drosglwyddir fel system drafnidiaeth, neu ran o system drafnidiaeth, ar gyfer cludo teithwyr a nwyddau.

(2) Nid oes unrhyw beth yn y Gorchymyn hwn, nac mewn unrhyw ddeddfiad a ymgorfforir â'r Gorchymyn hwn neu a gymhwysir ganddo, yn lleihau effaith nac yn effeithio ar weithrediad Rhan 1 o Ddeddf Rheilffyrdd 1993⁽¹⁾.

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o
Weinidogion Cymru
15 Gorffennaf 2019

Power to operate and use railway

5.—(1) The undertaker and any transferee under article 4 may operate and use the transferred railways as a system, or part of a system, of transport for the carriage of passengers and goods.

(2) Nothing in this Order, or in any enactment incorporated with or applied by this Order, prejudices or affects the operation of Part 1 of the Railways Act 1993⁽¹⁾.

Julie James
Minister for Housing and Local Government, one of
the Welsh Ministers
15 July 2019

⁽¹⁾ 1993 p. 43.

⁽¹⁾ 1993 c. 43.

ATODLENNI

SCHEDULES

ATODLEN 1 Erthygl 2

Y deddfiadau rheilffyrdd ar gyfer llinellau craidd y Cymoedd

Deddf Rheilffordd Cwm Taf 1836 (1836 p. lxxxii.)
Deddf Rheilffordd Aberdâr 1845 (1845 p. clix.)
Deddf Rheilffordd De Cymru 1845 (1845 p. cxc.)
Deddf Rheilffordd Cwm Nedd 1846 (1846 p. cccxli.)
Deddf Rheilffordd Cwm Taf 1846 (1846 p. cccxciii.)
Deddf Diwygio Cwm Nedd 1847 (1847 p. lxxiv.)
Deddf Diwygio Rheilffordd De Cymru 1847 (1847 p. cix.)
Deddf Rheilffordd Casnewydd, y Fenni a Henffordd (Estyniad i Reilffordd Cwm Taf) 1847 (1847 p. clxxvii.)
Deddf Gwaith Newydd Rheilffordd De Cymru 1851 (1851 p. lii.)
Deddf Rheilffordd Cwm Nedd 1852 (1852 p. xvi.)
Deddf Rheilffordd Rhymni 1854 (1854 p. exciii.)
Deddf Diwygio Rheilffordd Rhymni 1855 (1855 p. cx.)
Deddf Rheilffordd Cwm Aberdâr 1855 (1855 p. cxx.)
Deddf Harbwr Llanw a Rheilffordd Elái 1856 (1856 p. cxxii.)
Deddf Rheilffordd Casnewydd, y Fenni a Henffordd 1857 (1857 p. cxix.)
Deddf Rheilffordd Rhymni 1857 (1857 p. cxl.)
Deddf Rheilffordd Cwm Taf 1857 (1857 p. cliii.)
Deddf Rheilffordd Rhymni (Caerdydd a Chaerffili) 1864 (1864 p. cclxiv.)
Deddf Rheilffordd Rhymni (Llinellau'r Gogledd) 1864 (1864 p. cclxxv.)
Deddf Rheilffordd Great Western (Pwerau Pellach) 1866 (1866 p. cccvii.)
Deddf Rheilffordd Great Western (Pwerau Amrywiol) 1867 (1867 p. cl.)
Deddf Rheilffordd Rhymni 1867 (1867 p. clxxi.)

SCHEDULE 1 Article 2

The railway enactments for the core Valley lines

Taff Vale Railway Act 1836 (1836 c. lxxxii.)
Aberdare Railway Act 1845 (1845 c. clix.)
South Wales Railway Act 1845 (1845 c. cxc.)
Vale of Neath Railway Act 1846 (1846 c. cccxli.)
Taff Vale Railway Act 1846 (1846 c. cccxciii.)
Vale of Neath Amendment Act 1847 (1847 c. lxxiv.)
South Wales Railway Amendment Act 1847 (1847 c. cix.)
Newport, Abergavenny and Hereford Railway (Extension to Taff Vale Railway) Act 1847 (1847 c. clxxvii.)
South Wales Railway New Works Act 1851 (1851 c. lii.)
Vale of Neath Railway Act 1852 (1852 c. xvi.)
Rhymney Railway Act 1854 (1854 c. exciii.)
Rhymney Railway Amendment Act 1855 (1855 c. cx.)
Aberdare Valley Railway Act 1855 (1855 c. cxx.)
Ely Tidal Harbour and Railway Act 1856 (1856 c. cxxii.)
Newport, Abergavenny and Hereford Railway Act 1857 (1857 c. cxix.)
Rhymney Railway Act 1857 (1857 c. cxl.)
Taff Vale Railway Act 1857 (1857 c. cliii.)
Rhymney Railway (Cardiff and Caerphilly) Act 1864 (1864 c. cclxiv.)
Rhymney Railway (Northern Lines) Act 1864 (1864 c. cclxxv.)
Great Western Railway (Further Powers) Act 1866 (1866 c. cccvii.)
Great Western Railway (Various Powers) Act 1867 (1867 c. cl.)
Rhymney Railway Act 1867 (1867 c. clxxi.)

Deddf Rheilffordd Aberhonddu a Merthyr Tudful (Trefniant) 1868 (1868 p. cxlii.)

Deddf Rheilffordd Great Western 1872 (1872 p. cxxix.)

Deddf Rheilffordd Cwm Taf 1873 (1873 p. clviii.)

Deddf Rheilffordd Great Western 1880 (1880 p. cxli.)

Deddf Rheilffordd Cwm Taf 1884 (1884 p. ccii.)

Deddf Rheilffordd Great Western 1890 (1890 p. clix.)

Deddf Rheilffordd Caerdydd 1897 (1897 p. ccvii.)

Brecon and Merthyr Railway (Arrangement) Act 1868 (1868 c. cxlii.)

Great Western Railway Act 1872 (1872 c. cxxix.)

Taff Vale Railway Act 1873 (1873 c. clviii.)

Great Western Railway Act 1880 (1880 c. cxli.)

Taff Vale Railway Act 1884 (1884 c. ccii.)

Great Western Railway Act 1890 (1890 c. clix.)

ATODLEN 2 Erthygl 3

Darpariaethau sy'n ymwneud â chynlluniau trosglwyddo

*Darpariaethau cyffredinol ynghylch cynlluniau
trosglwyddo*

1.—(1) Caiff cynllun trosglwyddo—

- (a) diffinio'r eiddo, yr hawliau a'r atebolrwyddau sydd i'w trosglwyddo i'r ymgwymerwr (yn amodol ar unrhyw eithriad, cymal cadw neu delerau eraill y gellir ei bennu neu eu pennu yn y cynllun trosglwyddo)—
 - (i) drwy bennu neu ddisgrifio'r eiddo, yr hawliau a'r atebolrwyddau dan sylw,
 - (ii) drwy gyfeirio at yr holl eiddo, hawliau ac atebolrwyddau a geir mewn rhan benodedig o ymgymeriad llinellau craidd y Cymoedd (neu'r holl eiddo, hawliau ac atebolrwyddau ond cymaint ag y gellir ei eithrio neu ei gadw'n ôl), neu
 - (iii) yn rhannol yn y naill ffordd ac yn rhannol yn y llall;
- (b) darparu y bydd unrhyw hawliau neu atebolrwyddau a bennir neu a ddisgrifir yn y cynllun yn orfodadwy naill ai gan neu yn erbyn yr ymgwymerwr neu Network Rail (neu'r ddau ohonynt);
- (c) heb effeithio ar baragraff 6, gosod rhwymedigaeth ar yr ymgwymerwr neu Network Rail i ymrwymo i'r cyfryw gytundebau ysgrifenedig â Network Rail neu'r ymgwymerwr neu'r cyfryw berson arall ag y gellir ei bennu yn y cynllun, neu weithredu'r cyfryw offerynnau eraill o blaid Network Rail neu'r ymgwymerwr neu'r person arall hwnnw;
- (d) gwneud y cyfryw ddarpariaeth atodol, gysylltiedig, ganlyniadol neu drosiannol ag sy'n briodol ym marn yr ymgwymerwr a Network Rail.

SCHEDULE 2 Article 3

Provisions relating to transfer schemes

General provisions about transfer schemes

1.—(1) A transfer scheme may—

- (a) define the property, rights and liabilities to be transferred to the undertaker (subject to any exception, reservation or other terms that may be specified in the transfer scheme)—
 - (i) by specifying or describing the property, rights and liabilities in question,
 - (ii) by referring to all (or all but so much as may be excepted or reserved) of the property, rights and liabilities comprised in a specified part of the core Valley lines undertaking, or
 - (iii) partly in the one way and partly in the other;
- (b) provide that any rights or liabilities specified or described in the scheme is to be enforceable either by or against the undertaker or Network Rail (or both of them);
- (c) without affecting paragraph 6, impose on the undertaker or Network Rail an obligation to enter into such written agreements with, or execute such other instruments in favour of, Network Rail or the undertaker or such other person as may be specified in the scheme;
- (d) make such supplemental, incidental, consequential or transitional provision as the undertaker and Network Rail consider appropriate.

(2) Caniateir i rwymedigaeth a osodir gan ddarpariaeth a gynhwyswyd mewn cynllun trosglwyddo yn rhinwedd is-baragraff (1)(c) gael ei gorfodi gan yr ymgwymerwr neu Network Rail neu berson arall a grybwyllir yn yr is-baragraff hwnnw—

- (a) mewn achos sifil i gael gwaharddeb,
- (b) mewn achos sifil i gael unrhyw ryddhad neu rwymedi priodol arall, neu
- (c) mewn unrhyw ffordd arall a awdurdodir gan y cynllun trosglwyddo.

(3) Mae trafodyn o unrhyw ddisgrifiad a gyflawnir yn unol â rhwymedigaeth a osodir gan ddarpariaeth a gynhwyswyd mewn cynllun trosglwyddo yn rhinwedd is-baragraff (1)(c)—

- (a) yn cael effaith yn ddarostyngedig i ddarpariaethau unrhyw ddeddfiad sy'n darparu ar gyfer cofrestru trafodion o'r disgrifiad hwnnw mewn unrhyw gofrestr statudol, ond
- (b) yn ddarostyngedig i hynny, yn gyfrwymol ar bob person arall, er y byddai wedi bod angen iddo gael, ar wahân i'r paragraff hwn, gydsyniad neu gymeradwyaeth unrhyw berson arall.

(4) Nid oes unrhyw hawl refersiwn, hawl rhagbrynant, hawl fforffedu, hawl ailfyndiad, opsiwn na hawl debyg sy'n effeithio ar dir yn weithredol nac yn dod yn adferadwy o ganlyniad i drosglwyddo unrhyw dir—

- (a) yn rhinwedd cynllun trosglwyddo;
- (b) yn unol â rhwymedigaeth a osodir gan ddarpariaeth a gynhwyswyd mewn cynllun trosglwyddo yn rhinwedd is-baragraff (1)(c);

ac, mae unrhyw gyfryw hawl neu opsiwn yn cael effaith, felly, yn achos unrhyw gyfryw drosglwyddiad fel pe bai'r ymgwymerwr mewn perthynas â'r trosglwyddiad hwnnw a Network Rail yr un person o dan y gyfraith ac fel pe na bai'r tir wedi ei drosglwyddo.

(5) Mae is-baragraff (4) yn cael effaith mewn perthynas â—

- (a) rhoi neu greu ystad neu fuddiant mewn tir neu hawl dros dir, neu
- (b) gwneud unrhyw beth arall mewn perthynas â thir,

fel y mae'n cael effaith mewn perthynas â throsglwyddo tir; a rhaid dehongli unrhyw gyfeiriad yn yr is-baragraff hwnnw neu yn narpariaethau canlynol yr Atodlen hon i Network Rail neu'r ymgwymerwr yn unol â hynny.

(2) An obligation imposed by a provision included in a transfer scheme by virtue of sub-paragraph (1)(c) may be enforced by the undertaker or Network Rail or other person mentioned in that sub-paragraph—

- (a) in civil proceedings for an injunction,
- (b) in civil proceedings for any other appropriate relief or remedy, or
- (c) in any other way authorised by the transfer scheme.

(3) A transaction of any description which is effected pursuant to an obligation imposed by a provision included in a transfer scheme by virtue of sub-paragraph (1)(c)—

- (a) has effect subject to the provisions of any enactment which provides for transactions of that description to be registered in any statutory register, but
- (b) subject to that, is binding on all other persons, notwithstanding that it would, apart from this paragraph, have required the consent or concurrence of any other person.

(4) No right of reverter, right of pre-emption, right of forfeiture, right of re-entry, option or similar right affecting land operates or becomes exercisable as a result of any transfer of land—

- (a) by virtue of a transfer scheme;
- (b) pursuant to an obligation imposed by a provision included in a transfer scheme by virtue of sub-paragraph (1)(c);

and, any such right or option accordingly has effect in the case of any such transfer as if the undertaker in relation to that transfer were the same person in law as Network Rail and as if no transfer of the land had taken place.

(5) Sub-paragraph (4) has effect in relation to—

- (a) the grant or creation of an estate or interest in, or right over, land, or
- (b) the doing of any other thing in relation to land,

as it has effect in relation to a transfer of land; and any reference in that sub-paragraph or in the following provisions of this Schedule to Network Rail or the undertaker is to be construed accordingly.

(6) Mewn unrhyw achos lle—

- (a) y byddai unrhyw gyfryw hawl neu opsiwn ag a grybwyllir yn is-baragraff (4), ar wahân i'r is-baragraff hwnnw, wedi gweithredu o blaid person neu'n dod yn arferadwy ganddo, ond
- (b) mae'r amgylchiadau yn golygu, o ganlyniad i weithredu'r is-baragraff hwnnw, na all yr hawl na'r opsiwn weithredu wedyn o blaid y person hwnnw neu, yn ôl y digwydd, ddod yn arferadwy gan y person hwnnw,

mae'n rhaid i'r ymgwymerwr dalu'r cyfryw ddigollediad ag a all fod yn gyfiawn i'r person hwnnw mewn cysylltiad â diddymu'r hawl neu'r opsiwn.

(7) Rhaid cyfeirio unrhyw anghydfod ynghylch pa un a oes unrhyw ddigollediad yn daladwy o dan is-baragraff (6) ac (os oes) faint, neu ynghylch y person y telir y digollediad iddo, at gymrodeddwr, a benodir gan Lywydd (am y tro) Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, a fydd yn penderfynu arno.

(8) Os ymddengys i'r ymgwymerwr fod gan berson (A) hawl, neu y gall fod ganddo hawl, i gael digollediad o dan is-baragraff (6), rhaid i'r ymgwymerwr—

- (a) hysbysu A fod gan A hawl, neu y gall fod ganddo hawl, i'w gael, a
- (b) gwahodd A i gyflwyno'r cyfryw sylwadau ag y mae A yn dymuno eu cyflwyno i'r ymgwymerwr yn ddim hwyrach na 14 diwrnod ar ôl dyddiad dyroddi'r ddogfen sy'n cynnwys yr hysbysiad sy'n ofynnol o dan is-baragraff (8)(a),

neu, os nad yw'r ymgwymerwr yn ymwybodol o enw a chyfeiriad y person dan sylw, mae'n rhaid iddo gyhoeddi, yn y fath fodd ag sy'n briodol ym marn yr ymgwymerwr, hysbysiad sy'n cynnwys gwybodaeth am y buddiant yr effeithir arno ac sy'n gwahodd unrhyw berson sy'n credu bod ganddo hawl, neu y gall fod ganddo hawl, i gael digollediad, i gyflwyno'r cyfryw sylwadau i'r ymgwymerwr o fewn y cyfryw gyfnod o amser (na fydd yn llai nag 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cyfryw hysbysiad) fel y'i pennir yn yr hysbysiad.

Eiddo, hawliau ac atebolrwyddau y caniateir eu trosglwyddo

2. Mae'r eiddo, yr hawliau a'r atebolrwyddau y caiff cynllun trosglwyddo ddarparu ar gyfer eu trosglwyddo yn cynnwys (yn benodol)—

- (a) hawliau ac atebolrwyddau sy'n ymwneud â chontractau cyflogaeth:

(6) In any case where—

- (a) any such right or option as is mentioned in sub-paragraph (4) would, apart from that sub-paragraph, have operated in favour of, or become exercisable by, a person, but
- (b) the circumstances are such that, in consequence of the operation of that sub-paragraph, the right or option cannot subsequently operate in favour of that person or, as the case may be, become exercisable by that person,

such compensation as may be just must be paid to that person by the undertaker in respect of the extinguishment of the right or option.

(7) Any dispute as to whether any, and (if so) how much, compensation is payable under sub-paragraph (6), or as to the person to whom it is to be paid, is to be referred to and determined by an arbitrator appointed by the President for the time being of the Royal Institution of Chartered Surveyors.

(8) If it appears to the undertaker that a person (A) is or may be entitled to compensation under sub-paragraph (6), the undertaker must—

- (a) notify A that A is or may be so entitled, and
- (b) invite A to make such representations as A wishes to the undertaker not later than 14 days after the date of issue of the document containing the notification required by sub-paragraph (8)(a),

or, if the undertaker is not aware of the name and address of the person concerned, must publish, in such manner as the undertaker considers appropriate, a notice containing information about the interest affected and inviting any person who thinks that they are or may be entitled to compensation to make such representations to the undertaker within such period (being not less than 28 days from the date of publication of the notice) as may be specified in the notice.

Property, rights and liabilities that may be transferred

2. The property, rights and liabilities for whose transfer a transfer scheme may provide include (in particular)—

- (a) rights and liabilities relating to contracts of employment;

- (b) eiddo, hawliau ac atebolrwyddau na allent, fel arall, gael eu trosglwyddo na'u haseinio gan Network Rail;
- (c) eiddo a gaffaelir ar ôl gwneud y cynllun a hawliau ac atebolrwyddau sy'n codi ar ôl gwneud y cynllun;
- (d) heb effeithio ar baragraff 3, hawliau ac atebolrwyddau o dan ddarpariaeth statudol.

Swyddogaethau o dan ddeddfwriaeth leol neu breifaf

3.—(1) Caiff cynllun trosglwyddo ddarparu y bydd unrhyw swyddogaethau a gyflawnir gan Network Rail o dan ddarpariaeth statudol—

- (a) yn cael eu trosglwyddo i'r ymgymerwr, neu
- (b) yn arferadwy gan Network Rail a'r ymgymerwr ar yr un pryd.

(2) Mae is-baragraff (1) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw swyddogaeth o dan ddarpariaeth statudol os ac i'r graddau y bydd y ddarpariaeth statudol—

- (a) yn ymwneud ag unrhyw ran o ymgymeriad llinellau craidd y Cymoedd, neu unrhyw eiddo, sydd i'w throsglwyddo neu ei drosglwyddo gan y cynllun, neu
- (b) yn awdurdodi gwneud gwaith y bwriedir iddo gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw ran o ymgymeriad llinellau craidd y Cymoedd neu gaffael tir at ddibenion gwneud unrhyw gyfryw waith.

(3) Caiff cynllun trosglwyddo ddiffinio unrhyw swyddogaethau a gyflawnir gan Network Rail y bydd y cynllun yn eu trosglwyddo neu'n eu gwneud yn arferadwy ar yr un pryd yn unol ag is-baragraff (1)—

- (a) drwy bennu'r darpariaethau statudol dan sylw,
- (b) drwy gyfeirio at yr holl ddarpariaethau statudol sy'n—
 - (i) ymwneud ag unrhyw ran o ymgymeriad llinellau craidd y Cymoedd, neu unrhyw eiddo, sydd i'w throsglwyddo neu ei drosglwyddo gan y cynllun, neu
 - (ii) awdurdodi gwneud gwaith y bwriedir iddo gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw ran o ymgymeriad llinellau craidd y Cymoedd neu gaffael tir at ddibenion gwneud unrhyw gyfryw waith, neu

drwy gyfeirio at yr holl ddarpariaethau statudol yn is-baragraff (3)(b) ond gan bennu darpariaethau penodol sydd wedi eu heithrio.

- (b) property, rights and liabilities that would not otherwise be capable of being transferred or assigned by Network Rail;
- (c) property acquired after the making of the scheme and rights and liabilities arising after the making of the scheme;
- (d) without affecting paragraph 3, rights and liabilities under a statutory provision.

Functions under local or private legislation

3.—(1) A transfer scheme may provide that any functions of Network Rail under a statutory provision—

- (a) are to be transferred to the undertaker, or
- (b) are to be concurrently exercisable by Network Rail and the undertaker.

(2) Sub-paragraph (1) applies in relation to any function under a statutory provision if and to the extent that the statutory provision—

- (a) relates to any part of the core Valley lines undertaking, or to any property, which is to be transferred by the scheme, or
- (b) authorises the carrying out of works designed to be used in connection with any such part of the core Valley lines undertaking or the acquisition of land for the purpose of carrying out any such works.

(3) A transfer scheme may define any functions of Network Rail to be transferred or made concurrently exercisable by the scheme in accordance with sub-paragraph (1)—

- (a) by specifying the statutory provisions in question,
- (b) by referring to all the statutory provisions which—
 - (i) relate to any part of the core Valley lines undertaking, or to any property, which is to be transferred by the scheme, or
 - (ii) authorise the carrying out of works designed to be used in connection with any such part of the core Valley lines undertaking or the acquisition of land for the purpose of carrying out any such works, or
- (c) by referring to all the statutory provisions within sub-paragraph (3)(b), but specifying certain excepted provisions.

Prawf teitl ar ffurf dystysgrif

4.—(1) Yn achos unrhyw drosglwyddiad y mae'r Atodlen hon yn gymwys iddo, mae cyd-dystysgrif gan neu ar ran Network Rail a'r ymgymerwr sy'n nodi bod—

- (a) unrhyw eiddo a bennir yn y dystysgrif, neu
- (b) unrhyw gyfryw fuddiant mewn unrhyw gyfryw eiddo ag y gellir ei bennu felly, neu unrhyw gyfryw hawl drosto, neu
- (c) unrhyw hawl neu atebolrwydd a bennir felly,

yn eiddo, neu (yn ôl y digwydd) yn fuddiant, yn hawl neu'n atebolrwydd y bwriadwyd iddo neu iddi gael ei freinio neu ei breinio, ac a freiniwyd, yn rhinwedd y cynllun trosglwyddo yn y cyfryw un ohonynt ag y gellir ei bennu neu ei phennu felly (ac, os mai'r ymgymerwr a bennir felly, nad yw'r eiddo, y buddiant, yr hawl na'r atebolrwydd wedi ei drosglwyddo nac ei throsglwyddo yn ôl i Network Rail yn rhinwedd cytundeb o dan baragraff 9) yn dystiolaeth bendant at bob diben o'r ffaith honno.

(2) Ar ddiwedd un mis yn dilyn cais gan naill ai Network Rail neu'r ymgymerwr i baratoi'r cyfryw gyd-dystysgrif mewn cysylltiad ag unrhyw eiddo, buddiant, hawl neu atebolrwydd, os na fyddant wedi cytuno ar delerau'r dystysgrif, bydd yn rhaid iddynt gyfeirio'r mater at Weinidogion Cymru a dyroddi'r dystysgrif yn y cyfryw dermau ag y gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo iddynt eu defnyddio.

Caiff cynllun trosglwyddo ddarparu ar gyfer trin tramgyddau ac ati fel pe na baent wedi digwydd

5.—(1) Caiff cynllun trosglwyddo gynnwys darpariaeth i drosglwyddiad gael effaith fel pe na bai unrhyw dramgydd nac atebolrwydd, nac ymyrraeth ag unrhyw fuddiant na hawl, a fyddai'n bodoli fel arall o dan ddarpariaeth sy'n dod o dan is-baragraff (2).

(2) Daw darpariaeth o dan yr is-baragraff hwn os yw'n cael effaith (pa un ai o dan ddeddfiad neu gytundeb neu fel arall) mewn perthynas â'r telerau y mae gan Network Rail hawl i'r eiddo neu'r hawl, neu y mae'n ddarostyngedig i'r atebolrwydd, y mae'r cynllun trosglwyddo yn darparu ar gyfer ei drosglwyddo neu ei throsglwyddo.

(3) Caiff cynllun trosglwyddo gynnwys darpariaeth i—

- (a) creu buddiant mewn eiddo (gan gynnwys prydles),
- (b) trosglwyddo cyfranddaliadau yn un o is-gwmnïau Network Rail, neu
- (c) creu hawl mewn perthynas ag eiddo,

Proof of title by certificate

4.—(1) In the case of any transfer to which this Schedule applies, a joint certificate by or on behalf of Network Rail and the undertaker that—

- (a) any property specified in the certificate, or
- (b) any such interest in or right over any such property as may be so specified, or
- (c) any right or liability so specified,

is property, or (as the case may be) an interest, right or liability which was intended to be, and was vested by virtue of the transfer scheme in such one of them as may be so specified (and, if it is the undertaker who is so specified, that the property, interest, right or liability has not been transferred back to Network Rail by virtue of an agreement under paragraph 9) is conclusive evidence for all purposes of that fact.

(2) If on the expiration of one month after a request from either Network Rail or the undertaker for the preparation of such a joint certificate as respects any property, interest, right or liability they have failed to agree on the terms of the certificate, they must refer the matter to the Welsh Ministers and issue the certificate in such terms as the Welsh Ministers may direct.

Transfer scheme may provide for contraventions etc. to be treated as not occurring

5.—(1) A transfer scheme may contain provision for a transfer to take effect as if there were no contravention or liability, or interference with any interest or right, that there would otherwise be under a provision falling within sub-paragraph (2).

(2) A provision falls within this sub-paragraph if it has effect (whether under an enactment or agreement or otherwise) in relation to the terms on which Network Rail is entitled to the property or right, or subject to the liability, for whose transfer the transfer scheme provides.

(3) A transfer scheme may contain provision for—

- (a) the creation of an interest in property (including a lease),
- (b) the transfer of shares in a subsidiary of Network Rail, or
- (c) the creation of a right in relation to property,

a fydd yn cael effaith fel pe na bai unrhyw dramgwydd nac atebolrwydd, nac ymyrraeth ag unrhyw fuddiant na hawl, a fyddai'n bodoli fel arall o dan ddarpariaeth sy'n dod o dan is-baragraff (4) neu (5).

(4) Daw darpariaeth o dan yr is-baragraff hwn os yw'n cael effaith (pa un ai o dan ddeddfiad neu gytundeb neu fel arall) mewn perthynas â'r telerau y mae gan Network Rail hawl i'r eiddo.

(5) Daw darpariaeth o dan yr is-baragraff hwn os yw'n cael effaith (pa un ai o dan ddeddfiad neu gytundeb neu fel arall) mewn perthynas â'r telerau y mae gan un o is-gwmnïau Network Rail hawl i unrhyw beth, neu y mae'n ddarostyngedig i unrhyw beth, yn union cyn i greu'r buddiant neu hawl gymryd effaith.

Caiff cynllun trosglwyddo osod rhwymedigaethau i ymrwymo i gytundebau neu weithredu offerynnau

6.—(1) Caiff cynllun trosglwyddo gynnwys darpariaeth ar gyfer gosod, ar Network Rail neu'r ymgymerwr, rwymedigaethau i wneud y canlynol—

- (a) ymrwymo i gytundebau â phersonau a bennir yn y cynllun,
- (b) gweithredu offerynnau o blaid personau a bennir yn y cynllun, neu
- (c) gweithredu'r cyfryw offerynnau eraill ag sy'n angenrheidiol neu'n fuddiol i nodi neu ddiffinio'r eiddo, yr hawliau a'r atebolrwyddau a drosglwyddir i'r ymgymerwr neu a gedwir gan Network Rail.

(2) Y personau y caniateir eu pennu felly yw—

- (a) yr ymgymerwr;
- (b) Network Rail;
- (c) unrhyw berson arall.

(3) Rhaid i'r cynllun trosglwyddo bennu neu ddisgrifio'r cytundeb neu'r offeryn y mae'r rhwymedigaeth yn ymwneud ag ef.

(4) Caiff unrhyw gyfryw gytundeb ddarparu, i'r graddau y mae'n fuddiol, ar gyfer—

- (a) rhoi prydlesau a chreu atebolrwyddau a hawliau eraill dros dir pa un a ydynt yn gyfystyr o dan y gyfraith â buddiannau mewn tir ai peidio, a pha un a ydynt yn golygu ildio unrhyw fuddiant presennol neu greu buddiant newydd ai peidio,
- (b) rhoi indemniadau mewn cysylltiad â thorri prydlesau a materion eraill, ac
- (c) cyfrifoldeb am gofrestru unrhyw fater mewn unrhyw gofrestr statudol.

to take effect as if there were no contravention or liability, or interference with any interest or right, that there would otherwise be under a provision falling within sub-paragraph (4) or (5).

(4) A provision falls within this sub-paragraph if it has effect (whether under an enactment or agreement or otherwise) in relation to the terms on which Network Rail is entitled to the property.

(5) A provision falls within this sub-paragraph if it has effect (whether under an enactment or agreement or otherwise) in relation to the terms on which a subsidiary of Network Rail is entitled or subject to anything immediately before the creation of the interest or right takes effect.

Transfer scheme may impose obligations to enter into agreements or execute instruments

6.—(1) A transfer scheme may contain provision for imposing, on Network Rail or the undertaker, obligations—

- (a) to enter into agreements with persons specified in the scheme,
- (b) to execute instruments in favour of persons specified in the scheme, or
- (c) to execute such other instruments as are necessary or expedient to identify or define the property, rights and liabilities transferred to the undertaker or retained by Network Rail.

(2) The persons who may be so specified are—

- (a) the undertaker;
- (b) Network Rail;
- (c) any other person.

(3) The transfer scheme must specify or describe the agreement or instrument to which the obligation relates.

(4) Any such agreement may provide so far as it is expedient—

- (a) for the granting of leases and for the creation of other liabilities and rights over land whether amounting in law to interests in land or not, and whether involving the surrender of any existing interest or the creation of a new interest or not,
- (b) for the granting of indemnities in connection with the severance of leases and other matters, and
- (c) for responsibility for registration of any matter in any statutory register.

Darpariaethau atodol cynlluniau trosglwyddo

7.—(1) Caiff cynllun trosglwyddo wneud y cyfryw ddarpariaeth gysylltiedig, atodol, ganlyniadol a throsiannol ag sy'n briodol, ym marn Network Rail a'r ymgwymerwr.

(2) Mae'r ddarpariaeth o dan is-baragraff (1) y caiff cynllun trosglwyddo ei wneud, yn cynnwys (yn benodol) ddarpariaeth—

- (a) sy'n arbed effaith pethau a wneir gan Network Rail neu mewn perthynas ag ef,
- (b) ar gyfer trin yr ymgwymerwr a Network Rail fel pe baent yr un person o dan y gyfraith,
- (c) ar gyfer trin pethau a wneir gan Network Rail neu mewn perthynas ag ef fel pe baent wedi eu gwneud gan yr ymgwymerwr neu mewn perthynas ag ef,
- (d) i bethau (gan gynnwys achosion cyfreithiol) a wneir gan Network Rail neu mewn perthynas ag ef gael eu parhau gan yr ymgwymerwr neu mewn perthynas ag ef, ac
- (e) i gyfeiriadau mewn dogfen at Network Rail, neu at un o gyflogeion neu swyddogion Network Rail, gael effaith gydag addasiadau a bennir yn y cynllun trosglwyddo.

(3) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud o dan is-baragraff (2)(e) yn cynnwys darpariaeth ar gyfer trin cyfeiriadau at Network Rail mewn unrhyw ddarpariaeth statudol, neu unrhyw ddarpariaeth mewn cytundeb nad yw Network Rail yn barti ynddo, fel cyfeiriadau at yr ymgwymerwr, os ac i'r graddau y bydd y ddarpariaeth yn ymwneud ag ymgwymeriad llinellau craidd y Cymoedd.

(4) Mae'r cyfeiriadau yn y paragraff hwn at gytundebau y mae Network Rail yn barti ynddynt a darpariaethau statudol yn cynnwys, yn benodol, gyfeiriadau at gytundebau y daeth Network Rail yn barti ynddynt, yn rhinwedd Deddf Trafnidiaeth 1962(1) a Deddf Rheilffyrdd 1993(2) a darpariaethau statudol sy'n gymwys i Network Rail yn rhinwedd y Deddfau hynny.

Effaith cynllun trosglwyddo

8.—(1) Ar yr adeg a bennwyd at y diben gan gynllun trosglwyddo, caiff—

- (a) eiddo, hawliau ac atebolrwyddau y mae cynllun yn darparu ar gyfer eu trosglwyddo, a
- (b) buddiannau, hawliau ac atebolrwyddau y mae'r cynllun yn darparu ar gyfer eu creu,

(1) 1962 p. 46.
(2) 1993 p. 43.

Supplementary provisions of transfer schemes

7.—(1) A transfer scheme may make such incidental, supplementary, consequential and transitional provision as Network Rail and the undertaker consider appropriate.

(2) The provision under sub-paragraph (1) that may be made by a transfer scheme includes (in particular) provision—

- (a) saving the effect of things done by or in relation to Network Rail,
- (b) for the undertaker to be treated as the same person in law as Network Rail,
- (c) for things done by or in relation to Network Rail to be treated as done by or in relation to the undertaker,
- (d) for things (including legal proceedings) being done by or in relation to Network Rail to be continued by or in relation to the undertaker, and
- (e) for references in a document to Network Rail, or to an employee or office-holder of Network Rail, to have effect with modifications specified in the transfer scheme.

(3) The provision that may be made under sub-paragraph (2)(e) includes provision for references to Network Rail in any statutory provision, or any provision of an agreement to which Network Rail is not a party, to be treated as references to the undertaker, if and so far as the provision relates to the core Valley lines undertaking.

(4) The references in this paragraph to agreements to which Network Rail is a party and to statutory provisions include, in particular, references to agreements to which Network Rail became a party by virtue of the Transport Act 1962(1) and the Railways Act 1993(2) and statutory provisions which apply to Network Rail by virtue of those Acts.

Effect of transfer scheme

8.—(1) At the time appointed for the purpose by a transfer scheme—

- (a) property, rights and liabilities for whose transfer the scheme provides, and
- (b) interests, rights and liabilities for whose creation the scheme provides,

(1) 1962 c. 46.
(2) 1993 c. 43.

yn rhinwedd yr is-baragraff hwn, eu trosglwyddo neu (yn ôl y digwydd) eu creu yn unol â'r cynllun.

(2) Caiff cynllun bennu gwahanol adegau ar gyfer trosglwyddo neu greu pethau gwahanol.

Amrywio cynlluniau trosglwyddo

9.—(1) Ar unrhyw adeg cyn diwedd y cyfnod o ddeuddeg mis sy'n dechrau â'r dyddiad y mae'r cynllun trosglwyddo yn cael effaith, caiff yr ymgwymerwr a Network Rail, gyda chymeradwyaeth Gweinidogion Cymru, gytuno'n ysgrifenedig—

- (a) o'r cyfryw ddyddiad ag y gellir ei bennu neu ei benderfynu o dan y cytundeb, a
- (b) o dan y cyfryw amgylchiadau (os oes rhai) ag y gellir eu pennu felly,

y caiff unrhyw eiddo, hawliau ac atebolrwyddau a bennir yn y cytundeb eu trosglwyddo oddi wrth yr ymgwymerwr i Network Rail ac y byddant wedi eu breinio ynddo; ond ni fydd unrhyw gyfryw gytundeb yn cael effaith mewn perthynas â hawliau ac atebolrwyddau o dan gontract cyflogaeth oni fydd y cyflogai dan sylw yn barti yn y cytundeb.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (3) a (4), yn achos cytundeb o dan is-baragraff (1), caiff yr eiddo, yr hawliau a'r atebolrwyddau dan sylw eu trosglwyddo a'u breinio yn unol â'r cytundeb.

(3) Bydd unrhyw drosglwyddiad a gyflawnir yn unol â chytundeb o dan is-baragraff (1) yn cael effaith yn ddarostyngedig i ddarpariaethau unrhyw ddeddfiad sy'n darparu ar gyfer cofrestru'r cyfryw drafodion mewn unrhyw gofrestr statudol.

(4) Mae darpariaethau'r Atodlen hon yn cael effaith mewn perthynas â throsglwyddiad a gyflawnir yn unol â chytundeb o dan is-baragraff (1) fel pe bai—

- (a) unrhyw gyfeiriad at drosglwyddiad y mae'r Atodlen hon yn gymwys iddo yn cynnwys cyfeiriad at drosglwyddiad a gyflawnir yn unol â'r cyfryw gytundeb,
- (b) unrhyw gyfeiriad at drafodyn a gyflawnir yn unol â chynllun trosglwyddo yn cynnwys cyfeiriad at y cyfryw gytundeb,
- (c) unrhyw gyfeiriad at freinio yn rhinwedd cynllun trosglwyddo yn cynnwys cyfeiriad at freinio yn rhinwedd y cyfryw gytundeb, a
- (d) ac eithrio yn achos paragraff 1(6) i (8), unrhyw gyfeiriad at Network Rail yn gyfeiriad at yr ymgwymerwr, ac fel arall.

are, by virtue of this sub-paragraph, transferred or (as the case may be) created in accordance with the scheme.

(2) A scheme may appoint different times for the transfer or creation of different things.

Variation of transfer schemes

9.—(1) At any time before the end of the period of twelve months beginning with the date on which a transfer scheme comes into effect, the undertaker and Network Rail may, with the approval of the Welsh Ministers, agree in writing that—

- (a) as from such date as may be specified in or determined under the agreement, and
- (b) in such circumstances (if any) as may be so specified,

there is to be transferred from the undertaker to, and vested in, Network Rail any property, rights and liabilities specified in the agreement; but no such agreement is to have effect in relation to rights and liabilities under a contract of employment unless the employee concerned is a party to the agreement.

(2) Subject to sub-paragraphs (3) and (4), in the case of an agreement under sub-paragraph (1), the property, rights and liabilities in question are to be transferred and vest in accordance with the agreement.

(3) Any transfer effected in pursuance of an agreement under sub-paragraph (1) is to have effect subject to the provisions of any enactment which provides for such transactions to be registered in any statutory register.

(4) The provisions of this Schedule have effect in relation to a transfer effected in pursuance of an agreement under sub-paragraph (1) as if—

- (a) any reference to a transfer to which this Schedule applies included a reference to a transfer effected in pursuance of such an agreement,
- (b) any reference to a transaction effected in pursuance of a transfer scheme included a reference to such an agreement,
- (c) any reference to a vesting by virtue of a transfer scheme included a reference to a vesting by virtue of such an agreement, and
- (d) except in the case of paragraph 1(6) to (8), any reference to Network Rail was a reference to the undertaker, and vice-versa.

Trosglwyddo cyflogeion a pharhad cyflogaeth

10.—(1) Pan fydd person a gyflogir gan Network Rail yn dod yn gyflogai i'r ymgymerwr, yn rhinwedd cynllun trosglwyddo—

- (a) nid ystyrir, at ddibenion Rhan 11 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996(1), fod y person wedi ei ddiswyddo yn rhinwedd y trosglwyddiad,
- (b) mae cyfnod cyflogaeth y person gyda Network Rail yn cyfrif, at ddibenion y Ddeddf honno, fel cyfnod o gyflogaeth gyda'r ymgymerwr, ac
- (c) nid yw newid cyflogaeth yn torri parhad y cyfnod o gyflogaeth at ddibenion y Ddeddf honno.

(2) Mae'r is-baragraff hwn yn gymwys pan fo—

- (a) cynllun trosglwyddo yn darparu ar gyfer trosglwyddo hawliau, pwerau, dyletswyddau ac atebolrwyddau sy'n ymwneud â chontract cyflogaeth person, ond
- (b) cyn i'r trosglwyddiad gymryd effaith, bod y person yn hysbysu Network Rail neu'r ymgymerwr ei fod yn gwrthwynebu'r trosglwyddiad.

(3) Pan fo is-baragraff (2) yn gymwys—

- (a) ni throsglwyddir yr hawliau, y pwerau, y dyletswyddau na'r atebolrwyddau hynny i'r ymgymerwr;
- (b) terfynir contract cyflogaeth y person yn union cyn y diwrnod y byddai'r trosglwyddiad wedi digwydd;
- (c) nid ystyrir bod y person, at unrhyw ddiben, wedi ei ddiswyddo.

(4) Nid oes unrhyw beth yn is-baragraff (2) na (3) yn effeithio ar hawl y person i derfynu'r contract cyflogaeth os gwneir newid sylweddol, ar wahân i newid cyflogwr, gan niweidio'r person o ran ei amodau gwaith.

(5) Os bydd cynllun trosglwyddo yn darparu ar gyfer trosglwyddo hawliau, pwerau, dyletswyddau ac atebolrwyddau sy'n ymwneud â chontract cyflogaeth y person, caiff gynnwys darpariaeth mewn cysylltiad â chymhwysra'r person i fod yn aelod o gynllun pensiwn yn rhinwedd ei gyflogaeth gyda'r ymgymerwr.

(6) Caiff y cynllun trosglwyddo gynnwys darpariaeth mewn cysylltiad â hawliau'r person, neu hawliau neu atebolrwyddau mewn cysylltiad ag ef, o dan—

Transfer of employees and continuity of employment

10.—(1) Where, by virtue of a transfer scheme, a person employed by Network Rail becomes an employee of the undertaker—

- (a) the person is not to be regarded for the purposes of Part 11 of the Employment Rights Act 1996(1) as having been dismissed by virtue of the transfer,
- (b) the person's period of employment with Network Rail counts, for the purposes of that Act, as a period of employment with the undertaker, and
- (c) the change of employment does not break the continuity of the period of employment for the purposes of that Act.

(2) This sub-paragraph applies where—

- (a) a transfer scheme provides for the transfer of rights, powers, duties and liabilities relating to a person's contract of employment, but
- (b) before the transfer takes effect, the person informs Network Rail or the undertaker that the person objects to the transfer.

(3) Where sub-paragraph (2) applies—

- (a) those rights, powers, duties and liabilities are not transferred to the undertaker;
- (b) the person's contract of employment is terminated immediately before the day on which the transfer would have occurred;
- (c) the person is not, for any purpose, to be regarded as having been dismissed.

(4) Nothing in sub-paragraph (2) or (3) affects the person's right to terminate the contract of employment if, apart from the change of employer, a substantial change is made to the person's detriment in his or her working conditions.

(5) If a transfer scheme provides for the transfer of rights, powers, duties and liabilities relating to a person's contract of employment, it may include provision with respect to the person's eligibility to become a member of a pension scheme by virtue of employment with the undertaker.

(6) The transfer scheme may include provision with respect to rights of, or rights or liabilities in respect of, the person under—

(1) 1996 p. 18.

(1) 1996 c. 18.

- (a) cynllun pensiwn y gall y person ymaelodi ag ef yn rhinwedd ei gyflogaeth gyda'r ymgwymerwr, neu
- (b) cynllun pensiwn y mae'r person yn aelod ohono yn rhinwedd ei gyflogaeth yn union cyn y trosglwyddiad.

- (a) a pension scheme of which the person may become a member by virtue of employment with the undertaker, or
- (b) a pension scheme of which the person is a member by virtue of employment immediately before the transfer.

©©Hawlfraint y Goron 2019

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2019

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£6.90

W201907161010 07/2019

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2019/1132>

ISBN 978-0-348-20447-6



9 780348 204476